**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2006**

**ADRODDIAD BEECHAM**

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Nodi prif argymhellion adroddiad Beecham, ac ystyried pa gamau y gallai'r Awdurdod Tân eu cymryd wrth ymateb iddo.

**Y Cefndir**

**2.** Mae gan Lywodraeth y Cynulliad weledigaeth o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru sy'n rhannu nodau cyffredin ac yn gweithio ar draws ffiniau sectorau a sefydliadau. Ei chenhadaeth yw diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'u cael i ganolbwyntio fwy ar y dinesydd, ymateb i anghenion cymunedau, a chael eu gyrru gan ymrwymiad i gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ac effeithlonrwydd.

Cyflëwyd yr weledigaeth yn 2004 mewn dogfen o'r enw **Creu'r Cysylltiadau** a oedd yn rhestr pedair prif egwyddor:

- **Rhoi'r dinesydd yn y canol:** gwasanaethau sy'n fwy ymatebol i ddefnyddwyr gyda phobl a chymunedau'n rhan o gynllunio'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu
- **Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**: pawb i gael y cyfle i gyfrannu a bydd gwasanaethau cyhoeddus yn estyn allan i'r rhai sydd mwyaf anos eu cyrraedd

**Cefndir** *(parhad)*

- **Gweithio gyda'n gilydd fel Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru:** mwy o gydlynu rhwng darparwyr er mwyn darparu gwasanaethau o safon cynaliadwy ac sy'n ymatebol
- **Gwerth am Arian**: gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau

**3.** Fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r strategaeth **Creu'r Cysylltiadau** ar waith, sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad **Adolygiad Beecham** yng Ngorffennaf 2005. Nodau'r adolygiad oedd adnabod gwelliannau yn y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau lleol, a oedd mor radical ac arloesol ag yr oedd angen, ac yn edrych ar y ffordd y gellir defnyddio, datblygu ac addasu'r trefniadau presennol ar gyfer atebolrwydd er mwyn cefnogi'r newydd-deb hwn

**4.** Ar Orffennaf 10fed cyflwynodd Syr Jeremy Beecham ei adroddiad **"Ar draws ffiniau"** i Weinidog Cyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r adroddiad yn rhestru'r egwyddorion cyffredin ar gyfer gwasanaethau lle mae'r dinesydd yn y canol, sy'n effeithlon ac yn atebol a hynny mewn gwlad fechan. Mae'r adolygiad yn argymell:-

- lleihau biwrocratiaeth
- llawer mwy o weithio ar y cyd
- dim ad-drefnu'r awdurdodau'n sylweddol er y bydd y cynnydd yn cael ei adolygu ymhen pum mlynedd
- parodrwydd i gofleidio economi gymysg o ddarpariaethau yn cynnwys y sectorau cyhoeddus/preifat a di-elw
- rhagor o rôl ar gyfer craffu yn y Cynulliad a llywodraeth leol
- rhagor o fuddsoddi mewn cynyddu gallu a sgiliau o ran cyflwyno gwasanaethau

**Cefndir** *(parhad)*

- treialu Cytundebau Gweithredu Partneriaethau (cytundebau rhwng Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaethau er mwyn cyflawni amcanion penodol)
- rheoli perfformiad yn well
- cywiro pan fydd methiant wrth gyflwyno gwasanaethau
- sicrhau bod y cyhoedd a'r penderfynwyr yn gwybod mwy am berfformiad.

Gellir gweld yr adroddiad yn llawn ar: www.new.wales.gov.uk/docrepos/
40382/403823121/40382213/528962/Welsh_Report.pdf?lang=en

**5.** Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Syr Jeremy mai " ein neges ni yw bod strategaeth Creu'r Cysylltiadau wedi dechrau'n addawol, ond fel technoleg band-eang cyfoes, rhaid iddi fynd **ymhellach a hynny'n gynt**".

## Y Cynnydd hyd yn hyn yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**6.** Mae hanes cynyddol o gydweithredu, yn enwedig gyda'r gwasanaethau brys eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr uned eiddo ar y cyd yn Heddlu Gogledd Cymru, y treialon cynlluniau cyd-ymateb sydd i'w cynnal yn fuan mewn rhannau o Wynedd, y tîm lleihau llosgi bwriadol a'r ystafell reoli arfaethedig i'r tri gwasanaeth. Mae'r mentrau hyn yn ceisio cael canlyniadau megis gwell gwasanaeth i'r cyhoedd, mwy o bosibilrwydd, gallu i wrthsefyll neu arbedion effeithlonrwydd.

**Y Cynnydd hyd yn hyn yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** *(parhad)*

**7.** Mae'r broses foderneiddio yn yr awdurdodau tân ac achub wedi gofyn rhoi sylw i rai o'r materion sydd hefyd yn ymddangos yn yr adroddiad: enghraifft dda yw ymgysylltu â'r cyhoedd trwy gyfathrebu'n well, gwaith diogelwch tân yn y gymuned a chynlluniau lleihau risg (a chyn hynny y cynlluniau integredig rheoli risg).

**8.** Fodd bynnag, mae adroddiad Beecham yn gosod agenda heriol y bydd gofyn am roi rhagor o ystyriaeth i welliannau mewn meysydd megis model y dinesydd o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus; bod yn gryf wrth gyflwyno gwasanaethau; sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn dod â manteision gwirioneddol i'r dinasyddion; mwy o her, craffu mewnol ac allanol, trwy bwyllgorau craffu cynghorau efallai er mwyn gwella gallu; a dangos ffordd strategol mewn perthynas ag effeithlonrwydd.

**9.** Nid o'r egwyddor fod moderneiddio i fod i'w gyllido ei hun y mae'r gofyniad i ganolbwyntio'n barhaus ar effeithlonrwydd yn codi'n unig, ond hefyd o dynhau cyllid cyhoeddus. Mae adroddiad Beecham ynghyd ag agenda Creu'r Cysylltiadau yn canolbwyntio ar gost-effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau. Er mwyn annog y ffordd hon o fynd ati, mae'r Cynulliad yn bwrw y bydd llywodraeth leol yn lleihau'r costau gwasanaeth trwy fwy o effeithlonrwydd ac yn bwrw y bydd 1% o arbedion effeithlonrwydd bob blwyddyn fel rhan o'r cyllid i gynghorau. Bydd hyn yn parhau tan 2009/10 pan mae disgwyl arbedion cronnol sylweddol mewn costau cyflwyno gwasanaeth. Mae'r sefyllfa hon yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod geisio gwella cost-effeithiolrwydd drwy'r amser, ac adnabod cyfleoedd i greu incwm.

**Argymhellion**

**10** Gwahoddir y Panel Gweithredol i nodi prif argymhellion adroddiad Beecham ac ystyried pa gamau y gallai'r Awdurdod Tân eu cymryd i ymateb iddo.